Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar y ddarpariaeth Addysg Bellach yn

**Brifysgol Cymru, Casnewydd**
**Lodge Road**
**Caerllion**
**Casnewydd**
**NP18 3QT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Prifysgol Cymru Casnewydd yn cynnig rhaglenni addysg uwch ar gyfer ystod eang o ddysgwyr sy'n byw yn ardal Gwent Fwyaf, ledled Cymru a'r DU, a hefyd ar gyfer dysgwyr rhyngwladol. Fel rhan o'i hymrwymiad i'r gymuned leol, mae'r brifysgol dros nifer o flynyddoedd wedi cynnig darpariaeth addysg bellach i gynorthwyo aelodau'r gymuned gyda chyfleoedd dysgu sy'n gallu arwain at fynediad i raglenni israddedig. Ar hyn o bryd mae'r brifysgol yn cynnig dwy raglen: Rhaglen Celf a Dylunio ar lefel sylfaen, a rhaglen Mynediad i Addysg Uwch. Mae'r rhaglenni yn Ysgol Addysg Casnewydd ac Ysgol Gelf, y Cyfryngau a Dylunio Casnewydd yn darparu llwybrau dilyniant i raglenni addysg uwch yn y brifysgol neu'r tu hwnt iddi.

Mae Dinas Casnewydd a chymoedd y dwyrain yn cynnwys ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd a chyflawniad addysgol gwael. Mae gwella mynediad i addysg uwch yn ganolog i nodau strategol y brifysgol, ac mae'n chwarae rhan flaenllaw yn yr economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae rhaglenni'r brifysgol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at y ddau faes gweithgarwch hwn.

Rhan fach iawn o weithrediad y brifysgol yw'r ddarpariaeth addysg bellach, ac mae ynddi ychydig dros 200 o ddysgwyr ar y rhaglenni o gymharu â 4,291 o ddysgwyr amser llawn sydd wedi ymrestru yn y brifysgol (heb gynnwys ymrestriadau addysg bellach). Adeg yr arolygiad, roedd 10,030 o ymrestriadau byw yn y Brifysgol, gan gynnwys rhaglenni addysg bellach.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol rhaglenni addysg bellach y brifysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae cyfraddau cyffredinol dysgwyr o ran cwblhau ac ennill eu cymwysterau ar raglenni addysg bellach ymhell islaw'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer darparwyr eraill yng Nghymru;
- mae cyfradd gyffredinol dysgwyr yn cwblhau'u rhaglenni wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf;
- nid oes unrhyw asesiad cychwynnol effeithiol o fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion;
- ni chynhelir unrhyw brofion diagnostig effeithiol o anghenion penodol dysgwyr i lywio cynllun dysgu unigol;
- nid yw asesiadau dysgwyr a safonau cyffredinol gwaith dysgwyr yn cael eu holrhain yn ddigon da wrth iddynt symud ymlaen drwy'u rhaglen;
- nid yw'r cymorth tiwtorial yn ddigon effeithiol ac nid yw'n rhoi'r cymorth a'r arweiniad i ddysgwyr sydd eu hangen arnynt i'w hatal rhag gadael eu rhaglenni'n gynnar;
- nid yw athrawon yn gwneud digon i annog a hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o Gymru a'r Gymraeg;
- mae'r prosesau ansawdd yn aneffeithiol o ran sicrhau gwelliannau mewn ansawdd a safonau; ac
- nid yw dysgwyr wedi datblygu gweledigaeth glir o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i wella cyflwyniad rhaglenni.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella ar gyfer rhaglenni addysg bellach yn y brifysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae'r materion a nodwyd yn yr argymhellion o'r adroddiad diwethaf wedi dod i'r amlwg eto;
- mae gormod o'r tueddiadau perfformiad wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf;
- mae'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd a safonau yn aneffeithiol; ac
- nid yw'r arweinyddiaeth bresennol yn rhoi digon o ffocws ar yr hyn y mae angen ei wneud i sicrhau gwelliant ac ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth.

## Argymhellion

Mae angen i arweinwyr a rheolwyr:

A1 wella cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr ar yr holl raglenni addysg bellach;

A2 cyflwyno asesiadau cychwynnol effeithiol i ddysgwyr ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd a gwneud yn siwr bod dysgwyr yn cael cymorth priodol lle bo angen;

A3 cyflwyno profion diagnostig effeithiol o anghenion penodol dysgwyr er mwyn llywio cynlluniau dysgu unigol;

A4 gwella prosesau olrhain a chymorth tiwtorial er mwyn lleihau'n sylweddol y risg y bydd dysgwyr yn gadael eu rhaglen yn gynnar heb eu cymhwyster targedig;

A5 gwneud mwy i annog a hyrwyddo dysgu a dealltwriaeth dysgwyr o Gymru a'r Gymraeg;

A6 gwella'r prosesau ansawdd er mwyn gwella ansawdd a safonau;

A7 sicrhau bod gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth a chyfeiriad clir ar gyfer newid a datblygu diwylliant ar gyfer gwelliant parhaus a chynaliadwy; a

A8 sicrhau yr eir i'r afael â'r holl argymhellion o adroddiadau arolygu Estyn, a'u bod yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd darpariaeth addysg bellach y brifysgol yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad yn eu Cynllun Datblygu Ansawdd. O ganlyniad i'r barnau anfoddhaol ar gyfer perfformiad presennol a rhagolygon gwella, cynhelir ailarolygiad o'r ddarpariaeth ymhen rhyw flwyddyn o gyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

### Safonau: Anfoddhaol

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr ar raglenni addysg bellach yn y brifysgol yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn is na'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer darparwyr eraill yng Nghymru. Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni arnynt wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt ar raglenni Celf a Dylunio Sylfaen yn dda iawn ac maent wedi'u cynnal dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu rhaglenni arnynt wedi dirywio dros yr un cyfnod. Mae hyn wedi arwain at fod cyfradd lwyddo'r dysgwyr hyn yn is na'r cyfraddau cyfartalog a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yng Nghymru.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt ar raglenni Mynediad wedi dirywio dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at fod cyfraddau llwyddo'r dysgwyr hyn yn is na'r cyfraddau cyfartalog a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yng Nghymru.

Mae'r cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad ar gyfer y nifer fach o ddysgwyr ar y rhaglenni Gosod Trydanol ymhell uwchlaw'r cyfraddau cyfartalog a gyflawnir gan golegau eraill yng Nghymru.

Nid yw dysgwyr ar raglenni addysg bellach yn y brifysgol yn elwa o raglen medrau allweddol ffurfiol. Mae ychydig o ddysgwyr ar y rhaglen Mynediad yn ymgymryd â chymwysterau TGAU priodol i baratoi ar gyfer rhaglenni israddedig, fel hyfforddiant athrawon. Mae pob un o'r rhaglenni yn cynnwys modiwlau astudio defnyddiol i gefnogi gofynion technoleg gwybodaeth a chyfathrebu eu rhaglen.

Mae'r dysgwyr sy'n aros ar eu rhaglenni yn gwneud cynnydd digonol, a chynnydd da weithiau, wrth ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth ar gyrsiau ymarferol ac academaidd. Yn gyffredinol, mae'r dysgwyr sy'n aros ar eu rhaglen yn gwella'u medrau llafar, ysgrifenedig ac ymarferol yn dda. Datblygir y rhain yn effeithiol drwy weithgareddau unigol, gwaith mewn grŵp a sesiynau dosbarth cyfan. Mae'r dysgwyr sy'n aros ar eu rhaglenni yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn eu defnyddio'n dda mewn ymchwil ac i gyflwyno'u gwaith.

### Lles: Digonol

Mae gan y brifysgol ystod o wasanaethau cymorth a phartneriaethau aml-asiantaeth i gefnogi'i strategaeth gyffredinol ar gyfer iechyd a lles. Mae'r dysgwyr yn glir ynglŷn â ble y gallant ofyn am help a chymorth ac â phwy i gysylltu os oes angen iddynt godi materion iechyd a diogelwch.

Mae staff y brifysgol sy’n addysgu ac yn rhoi cefnogaeth ar y rhaglenni addysg bellach yn ymgysylltu’n dda â dysgwyr ac maent bob amser yn barod i roi sylw da i’w lles corfforol ac emosiynol. Mae’r holl ddysgwyr addysg bellach yn gallu defnyddio gwasanaeth cynghori amser llawn y brifysgol, os oes angen.

Mae’r holl ddysgwyr bron yn mwynhau’u rhaglenni, yn enwedig elfennau prosiect ymarferol ac ysgrifenedig eu gwaith. Mae’r dysgwyr yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn siarad yn frwd yn y rhan fwyaf o achosion am eu profiad dysgu. Mae gan y rhan fwyaf o’r dysgwyr a arsylwyd agwedd gadarnhaol a phroffesiynol at eu gwaith.

Mae pob un o’r dysgwyr a arsylwyd yn gweithio’n dda gyda’i gilydd mewn timau a phan fyddant yn canolbwyntio ar waith unigol. Maent yn trin ei gilydd â pharch ac yn ymwybodol iawn o’u cyfrifoldebau tuag at y dysgwyr eraill yn eu grŵp.

Mae’r rhan fwyaf o’r dysgwyr a arsylwyd yn dweud eu bod wedi cael rhyw ymdeimlad o fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau’r ddarpariaeth addysg bellach, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â’u rhaglen eu hunain. Mae ychydig o ddysgwyr yn pryderu ynglŷn â chostau cynyddol teithio a rhywfaint o’r costau deunyddiau sy’n gysylltiedig â’u rhaglen. Byddai’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn argymell eu rhaglen i ffrindiau neu aelodau’r teulu.

Pan fydd dysgwyr yn hwyr i’w dosbarthiadau, cânt eu herio’n briodol gan y staff addysgu. At ei gilydd, mae presenoldeb y dysgwyr yn amrywio gormod ar hyd y flwyddyn. Yn ystod rhan gyntaf y rhaglenni mae’r presenoldeb yn dda. Ond wrth i’r flwyddyn fynd yn ei blaen, mae’r cyfraddau presenoldeb yn gostwng. Y ffaith fod rhai dysgwyr yn gweithio oddi ar y campws i gwblhau’u gwaith prosiect sydd i gyfrif am rywfaint o hyn. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb y dysgwyr oddeutu 75%.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae cwricwlwm addysg bellach y brifysgol yn cynnwys rhaglen Sylfaen mewn Celf a Dylunio a rhaglen Mynediad i Addysg Uwch. Mae’r ddwy raglen yn cynnig ystod da o lwybrau astudio sy’n galluogi dysgwyr ddilyn modiwlau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, ac i gefnogi’u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae’r rhaglenni yn cynnig y cyfle i ddysgwyr nad oes ganddynt gymwysterau addysgol ffurfiol, neu’r medrau arbenigol gofynnol, i wella ac i baratoi ar gyfer astudiaeth lefel 4. Mae’r dysgwyr yn cael cyfleoedd da i symud ymlaen i’r lefel astudio nesaf o fewn y brifysgol.

Mae dysgwyr yn cwblhau ymarferiad ysgrifenedig fel y gall athrawon asesu safon eu gwaith ysgrifenedig cyn iddynt ddechrau’u rhaglen. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon yn strwythuro’r asesiad cychwynnol o anghenion medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn ddigon da. Nid ydynt yn mynd ati’n systematig i asesu lefel medrau hanfodol dysgwyr wrth iddynt ddechrau’u rhaglenni. Nid yw dysgwyr yn cael asesiad diagnostig i bennu’u hanghenion penodol yn fanwl lle bo hyn yn briodol. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd i athrawon gynllunio’n gydlynus i wella medrau hanfodol a

medrau allweddol ehangach dysgwyr unigol. O ganlyniad, caiff athrawon eu hatal rhag gwahaniaethu'u haddysgu'n briodol er mwyn sicrhau bod anghenion dysgu'r holl ddysgwyr yn cael eu bodloni neu eu bod yn aros ar y rhaglen ac yn cwblhau'u rhaglenni'n llwyddiannus.

Mae'r dysgwyr ar y rhaglen Mynediad i Addysg Uwch yn cyfranogi mewn modiwl medrau astudio ar lefel 2 a lefel 3, sy'n cynnwys elfennau o gyfathrebu a llythrennedd, a phortffolio cyfathrebu lefel 3. Darperir cymhwyster cyfwerth â TGAU Saesneg hefyd ar y rhaglen Saesneg. Mae dysgwyr nad oes ganddynt gymhwyster TGAU mewn mathemateg a thechnoleg gwybodaeth yn astudio'r modiwlau hyn ar lefel 2 fel rhan o'u cwrs. Fodd bynnag, nid yw'r dysgwyr yn cael digon o gyfle strwythuredig i wella'u medrau hanfodol a'u medrau allweddol ehangach nac i weithio tuag at gymwysterau medrau ar lefelau sy'n briodol i'w gallu a'u rhaglen. Nid yw'r athrawon yn cynnwys nac yn ymgorffori medrau allweddol yn y cwricwlwm yn ddigon da.

Lle mae testunau sy'n gysylltiedig â nodweddion Cymru yn annatod i bynciau arbenigol, mae dysgwyr yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'u gwybodaeth am Gymru. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn cael cyfleoedd da yn gyson i ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae'r brifysgol yn cynnig cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr wella'u medrau iaith Gymraeg, ond nid yw'r dysgwyr yn manteisio ar hyn. At ei gilydd, nid yw'r athrawon yn gwneud digon i annog a hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o Gymru a'r Gymraeg.

Mae gan y brifysgol strategaeth amgylcheddol gynhwysfawr ac mae wedi gweithredu nifer o fentrau i gefnogi hyn. Mae llawer o ddysgwyr yn cael cyfleoedd da i ehangu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang lle mae meysydd o'r cwricwlwm yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr holl gyrsiau. At ei gilydd, nid yw'r athrawon yn hyrwyddo cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigon da.

**Addysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn amrywio o fod yn dda i fod yn anfoddhaol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u sesiynau yn dda i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cyfranogi'n llawn ac yn cael y gorau o'u hamser yn y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu nodau ac amcanion clir gyda dysgwyr ar ddechrau sesiynau ac yn darparu casgliadau perthnasol ar ddiwedd gweithgareddau dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio amrywiaeth rhesymol o ddulliau addysgu. Maent yn darparu cydbwysedd effeithiol rhwng gwaith theori a gwaith ymarferol i'r dysgwyr, ac yn cynnig y cyfle iddynt ddatblygu'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio tasgau unigol, gwaith mewn grwpiau bach a gwaith grŵp cyfan yn effeithiol. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel gan eu dysgwyr yn gyffredinol, ac maent yn herio'u hymatebion yn briodol.

Mae pob un o'r athrawon yn darparu cymorth a chyngor da i'r dysgwyr yn eu gwersi. Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio technegau holi yn dda yn eu dosbarthiadau i brofi cynnydd a dealltwriaeth y dysgwyr. Defnyddiant holi unigol a holi agored yn dda

gyda'u dysgwyr. Mewn llawer o ddosbarthiadau a arsylwyd, mae'r athrawon yn defnyddio dull holi estynedig yn dda i ddatblygu ymatebion y dysgwyr, a'u helpu i feddwl am eu hatebion. Mae athrawon mewn rhai sesiynau yn annog dysgwyr i arfarnu'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Maent yn atgoffa dysgwyr yn gyson o'u cyfrifoldebau i ymgymryd ag astudio hunangyfeiriedig yn ychwanegol at eu sesiynau ffurfiol.

Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn gadael i gyflymder gwersi arafu gormod. Mewn lleiafrif o'r sesiynau a arsylwyd, nid yw athrawon yn gwneud digon i wahaniaethu rhwng gwaith er mwyn darparu ar gyfer yr ystod eang o alluoedd yn y dosbarth. Ym mwyafrif y sesiynau mae diffyg cysondeb yn natblygiad y dysgwyr mewn llythrennedd a medrau.

Mae pob un o'r athrawon yn dangos gwybodaeth dda am eu pynciau ac maent yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu meysydd. Mae llawer ohonynt yn defnyddio enghreifftiau o'u profiadau eu hunain o weithio mewn diwydiant, masnach neu'r celfyddydau yn dda i esbonio cysyniadau pwysig.

Mae mwyafrif yr athrawon yn asesu gwaith dysgwyr yn drylwyr ac yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol iddynt i'w helpu i wella ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw adborth yr athrawon yn rhoi arweiniad digon clir i'r dysgwyr ar yr hyn sydd angen iddynt wneud i wella'u gwaith ac i wneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn olrhain perfformiad eu dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn bob amser yn trosglwyddo'r wybodaeth hon mewn pryd i'r dysgwyr i gefnogi'r darn nesaf o waith asesedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

At ei gilydd, mae trefniadau priodol gan y brifysgol ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles. Mae'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr yn trefnu nifer o weithgareddau i helpu dysgwyr wella'u dealltwriaeth o les. Mae pob un o'r dysgwyr yn glir ynglŷn â phwy gallant fynd atynt os oes ganddynt bryderon, neu ble gallant gael cymorth academaidd neu bersonol os oes ei angen arnynt.

Mae gan y brifysgol ystod cynhwysfawr iawn o wasanaethau cymorth dysgwyr. Mae pob un o'r gwasanaethau hyn ar gael i ddysgwyr addysg bellach. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth personol a chymorth lles, cyngor ar yrfaoedd, cwnsela, gwasanaeth caplan, Gwasanaeth Cyngor Astudio a mentoriaid myfyrwyr sy'n cefnogi dysgwyr Mynediad.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddarpar ddysgwyr cyn iddynt ddechrau'u cwrs. Mae'r holl ddysgwyr posibl yn cael cyfweliad gydag aelodau o dimau'r rhaglenni er mwyn asesu'u haddasrwydd ar gyfer eu dewis rhaglen. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr, yn enwedig ar y rhaglen Mynediad i Addysg Uwch, yn methu cwblhau'u rhaglen astudio.

Mae cyfnod ymsefydlu wythnos o hyd i'r holl fyfyrwyr, sy'n eu cyflwyno i wasanaethau canolog myfyrwyr yn y brifysgol ac i fanylion eu rhaglen.

Mae gan bob dysgwr diwtor personol sy'n eu cynorthwyo yn eu gwaith academaidd. Mae'r tiwtor personol yn cyfeirio dysgwyr at gymorth arbenigol priodol i'w helpu i oresgyn anawsterau astudio neu anawsterau personol sy'n effeithio'n andwyol ar eu dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n dewis derbyn y cymorth arbenigol y mae'r brifysgol yn ei gynnig yn y Gwasanaeth Cyngor Myfyrwyr neu drwy'r gwasanaeth cyngor astudio.

Mae gan bob dysgwr hawl cwricwlwm i gymorth tiwtorial un-i-un gyda'u tiwtoriaid personol. Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o'r gwasanaeth hwn i'w cefnogi tra'u bod ar y rhaglen. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr yn elwa o raglen diwtorial wedi'i strwythuro'n dda. Mae profiad y dysgwyr o sesiynau tiwtorial yn amrywio gormod. Mae angen i'r dysgwyr fod yn gyfrifol am gysylltu â'u tiwtor personol os teimlant fod angen cyngor neu arweiniad arnynt. Mae ychydig o ddysgwyr yn methu mynychu tiwtorialau un-i-un personol yn ystod eu hamser ar raglen. Nid yw'r staff yn gwneud digon i herio hyn. Mae polisi a gweithdrefnau priodol gan y brifysgol ar waith ar gyfer diogelu oedolion sy'n agored i niwed.

Mae dysgwyr yn datgelu unrhyw anabledd dysgu, corfforol neu synhwyrol pan fyddant yn gwneud cais neu'n cychwyn eu rhaglen astudio. Mae hyn yn galluogi'r brifysgol i roi cymorth priodol ar waith cyn gynted â phosibl. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n derbyn cynigion o gymorth. Yn gyffredinol, mae'r athrawon a'r tiwtoriaid personol yn rhoi cymorth da i ddysgwyr sy'n cwblhau'u rhaglenni. Maent yn hyblyg ac yn hawdd i'r dysgwyr fynd atynt, ac mae ganddynt bolisi 'drws agored' sy'n galluogi dysgwyr i gysylltu â nhw pa bryd bynnag y teimlant fod angen cymorth arnynt.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol iawn gan y brifysgol ynghyd ag ymagwedd gadarnhaol iawn at gynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae'r dysgwyr addysg bellach yn teimlo'n rhan fawr o'r brifysgol ac mae'r darparwr yn cynnig amgylchedd dysgu cefnogol, gofalgar a chroesawgar i'w ddysgwyr. Mae'r staff a'r dysgwyr yn dangos parch tuag at eu cyfoedion a'u cydweithwyr, ac maent yn cael eu trin â pharch gan eraill.

Mae gweithdrefnau a pholisïau priodol ar waith sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyflwynir dysgwyr i'r cysyniadau hyn yn gynnar yn eu rhaglen. Mae'r arweinydd, y staff a'r dysgwyr yn deall y rhain yn dda. Mae'r athrawon yn annog dysgwyr i fod yn oddefgar tuag at eraill. Daw'r dysgwyr o blith amrywiaeth o grwpiau ethnig, oedrannau ac anableddau.

Rhoddir gwybod i'r dysgwyr am weithdrefn briodol y brifysgol ar gyfer cwynion.

Mae amgylchedd a darpariaeth dda ar gyfer dysgu, gan gynnwys adnoddau canolog fel y llyfrgell, cyfleusterau TG a'r Gwasanaeth Cyngor Astudio. Mae dysgwyr yn gallu defnyddio'r llyfrgell 24 awr y dydd. Mae'r mannau cymdeithasol a thir y campws a ddefnyddir gan ddysgwyr yn dda, a gallant ddefnyddio ystod eang o gyfleusterau hamdden. Mae'r ystafelloedd addysgu, yr adnoddau dysgu a'r cyfarpar yn dda, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn addas i'r diben. Mae'r dysgwyr yn canmol ansawdd yr amgylchedd sydd ar gael iddynt ar gyfer eu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth dros ddarpariaeth addysg bellach y brifysgol yn anfoddhaol. Mae'r arweinyddiaeth ar y rhaglen Celf a Dylunio Sylfaen yn ddigonol, ond mae'n anfoddhaol ar y rhaglen Mynediad i Addysg Uwch.

Nid yw rheolwyr ar bob lefel wedi darparu ffocws ddigon cadarn na chyfeiriad clir ar wella agweddau allweddol ar y ddarpariaeth, fel yr angen i wella cyfraddau cadw dysgwyr, a'r cyfraddau y maent yn ennill eu cymwysterau arnynt. Er bod y darparwr wedi mynd i'r afael â'r argymhellion ar ôl arolygiad diwethaf Estyn, mae'r arweinwyr a rheolwyr wedi gadael i'r materion hyn ail-godi. Nid yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wedi datblygu gweledigaeth glir o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i gyflawni rhagoriaeth wrth gyflwyno'i raglenni addysg bellach. Yn ddiweddar iawn fe wnaeth y brifysgol benodi arweinydd rhaglen newydd i arwain y rhaglen Mynediad i Addysg Uwch. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i farnu unrhyw effaith fesuradwy yn sgil y penodiad hwn.

Mae dau arweinydd rhaglen yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglenni addysg bellach. Mae'r arweinwyr hyn yn adrodd yn uniongyrchol i ddau bennaeth adran gwahanol o dan strwythur y brifysgol. Gall hyn gyfyngu, ac mae hyn yn cyfyngu ar y gwaith o gyd-ddatblygu strategaethau arwain, prosesau gweithredol a rhannu arfer dda o fewn y rhaglenni addysg bellach.

Nid yw'r rheolwyr a'r staff yn mynd ati'n effeithiol i fonitro perfformiad y ddarpariaeth addysg bellach. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei chasglu, ond nid yw'r data'n cael ei fonitro na'i feincnodi yn erbyn darpariaeth debyg. Er bod gwybodaeth yn cael ei chasglu a chynlluniau gweithredu'n cael eu paratoi, nid yw'r gwaith o osod targedau ar gyfer gwella a monitro gwella ansawdd yn effeithiol, ac nid yw ychwaith yn cael ei feincnodi yn erbyn darparwyr eraill.

At ei gilydd, nid yw'r darparwr wedi datblygu systemau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu ôl-16 yn cael eu cyflawni a'u monitro'n effeithiol, er enghraifft, datblygu medrau dysgwyr. Er bod ystod eang o gyfarfodydd a gweithdrefnau adrodd yn eu lle, nid ydynt yn effeithiol o ran monitro a gwella safonau dysgwyr.

Nid yw'r llywodraethwyr yn llwyr ymwybodol o danberfformiad y ddarpariaeth addysg bellach. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o'r Is-ganghellor a'r uwch reolwyr. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser wedi darparu her ddigonol na chadarn i uwch reolwyr mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth addysg bellach. Mae'r llywodraethwyr yn dechrau dangos fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â darpariaeth addysg bellach y brifysgol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae prosesau'r brifysgol ar gyfer gwella ansawdd ei darpariaeth addysg bellach yn anfoddhaol.

Ar hyn o bryd, mae darpariaeth addysg bellach y brifysgol yn gweithredu gyda llawer o'r materion a godwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Er y lluniwyd cynllun gweithredu ac yr aethpwyd i'r afael ar y cychwyn â'r argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf, mae'r un materion wedi ymddangos eto fel diffygion. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at y dirywiad yng nghyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr o gymharu â'r sector addysg bellach.

Nid oes gan y brifysgol systemau digon da ar waith ar gyfer casglu barnau dysgwyr addysg bellach. Nid yw arolygon boddhad dysgwyr yn cael eu defnyddio digon. Nid yw'r adborth i ddysgwyr ar gamau gweithredu yn cynnwys digon o wybodaeth na manylion bob amser. Nid yw'n glir sut mae'r prosesau hyn yn dylanwadu'n effeithiol ar gyfer dysgwyr a sut maent yn llywio prosesau ansawdd cyffredinol ar gyfer gwella.

Mae'r brifysgol yn casglu ystod defnyddiol o ddata a gwybodaeth yn ymwneud â pherfformiad y dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol i lywio cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar gyfer gwella ansawdd. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn cymharu data addysg bellach y brifysgol yn erbyn meincnodau ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru.

Nid yw'r prosesau ansawdd presennol wedi sicrhau gwelliannau yn llwyddiant dysgwyr o ran ennill eu cymwysterau. Nid yw'r prosesau monitro ac olrhain ar gyfer gwaith dysgwyr yn ddigon cadarn, ac mae gormod o ddysgwyr yn gadael eu rhaglen yn gynnar heb ennill eu cymwysterau. Nid oes digon o dystiolaeth uniongyrchol yn cael ei chasglu i fonitro ac adolygu lefelau perfformiad presennol yn systematig. Nid yw rheolwyr yn gosod targedau heriol ar gyfer gwella yn erbyn meincnodau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys prosesau ar gyfer asesu safonau addysgu a dysgu, a chysylltu perfformiad unigol ag arfarnu ac anghenion datblygu staff.

Nid yw'r Adroddiad Hunanasesu (AHA) yn ddigon arfarnol, ac mae'n ddisgrifiadol yn bennaf. Nid yw'n arfarnu pa mor dda y mae'r sefydliad yn diwallu anghenion yr holl ddysgwyr, a sut mae'n datblygu camau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Nid yw camau a nodwyd ar gyfer gwelliannau yn canolbwyntio ar faterion penodol bob amser, nid oes modd eu mesur ac ni phennwyd adnoddau ar eu cyfer. Nid yw'r camau yn dweud yn glir pwy yw'r staff sy'n gyfrifol am eu cyflawni na beth yw'r dyddiadau cwblhau gofynnol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

At ei gilydd, mae darpariaeth addysg bellach y brifysgol wedi datblygu ystod defnyddiol o bartneriaethau yng Nghasnewydd a'r cyffiniau. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau gyda chyflogwyr, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach eraill, ac ystod da o grwpiau cymunedol a gwirfoddol.

Mae'r brifysgol wedi datblygu trefniadau gweithio da mewn partneriaeth gydag awdurdod lleol Dinas Casnewydd. Mae'r bartneriaeth hon wedi bod yn effeithiol ac wedi arwain at godi cyfleuster pwrpasol o ansawdd uchel yng nghanol dinas Casnewydd. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfleuster hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr addysg bellach. Fodd bynnag, mae gan y brifysgol gynlluniau wedi'u datblygu'n dda i hyn ddigwydd o Hydref 2011.

Mae'r brifysgol yn cynllunio'n strategol ar gyfer ehangu cyfranogaeth drwy ei chanolfan ar gyfer Dysgu Gydol Oes yn y Gymuned. Mae'r grŵp hwn yn gweithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a hyrwyddo agenda addysg Llywodraeth Cymru, ac yn benodol yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS). Mae'r ymrwymiad hwn yn ffurfio rhan o genhadaeth y brifysgol mewn perthynas â bod yn brifysgol gymunedol.

Mae'r darparwr wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau ac wedi ymgymryd â phrosiectau gydag ystod defnyddiol o bartneriaethau, er enghraifft, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae'r partneriaethau hyn wedi bod yn ddefnyddiol o ran rhoi gwybod i ddarpar ddysgwyr am y cyfleoedd addysg sydd ar gael iddynt yn y brifysgol.

Mae'r brifysgol yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith Ardal Leol 14-19 ac yn ddiweddar penododd Gydlynydd Rhwydwaith Dysgu i gyfrannu at bob datblygiad lleol, ac i sicrhau bod y brifysgol yn ymwneud yn weithgar â phob datblygiad lleol.

Mae gan y brifysgol berthynas sydd wedi hen sefydlu â'r coleg addysg bellach lleol, ac mae'n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth mewn perthynas â'r coleg. Mae'r brifysgol yn gweithio'n dda gyda'r coleg addysg bellach lleol ar gyfer cydgynllunio darpariaeth addysg bellach a phrosiectau eraill. Er enghraifft, mae Pennaeth y coleg lleol yn gweithio fel rhan o 'grŵp gorchwyl a gorffen' i edrych ar gyfeiriad y brifysgol yn y dyfodol. Mae'r datblygiad penodol hwn yn ei ddyddiau cynnar, ac mae'n rhy fuan eto i fesur ei effaith ar ddysgwyr y brifysgol a'r dysgwyr addysg bellach yn benodol. Mae'r ddogfen cynllunio strategol Mynediad yn amlygu'r angen i staff academaidd weithio'n fwy uniongyrchol gydag ysgolion lleol a sefydliadau addysg bellach. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn gyffredinol, ac nid yw'n cael effaith gadarnhaol ar recriwtio dysgwyr i ddarpariaeth addysg bellach y brifysgol.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, yn y rhaglen Celf a Dylunio Sylfaen, mae gorddibyniaeth ar fyfyrwyr y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) i gyflwyno rhaglenni. Mae gan y staff addysgu a'r staff cymorth sy'n cyflwyno'r rhaglenni addysg bellach gymwysterau a phrofiad addas.

Mae'r brifysgol yn darparu ystod defnyddiol o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus gyda'i staff addysgu a'i staff cymorth. Fodd bynnag, nid oes cynllun datblygu staff clir a chynhwysfawr gan y brifysgol ar gyfer y staff addysgu a'r staff cymorth sy'n cyflwyno rhaglenni addysg bellach. Nid yw gweithgareddau datblygu staff yn canolbwyntio digon ar ddatblygu ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu effeithiol.

Mae adeiladau'r brifysgol yn dda yn gyffredinol, ac yn ddigonol ar gyfer dysgwyr addysg bellach. Mae Campws newydd y Ddinas o safon uchel iawn. Mae'r brifysgol yn rhoi pwyslais pwysig ar gynaliadwyedd ac adlewyrchir hyn yn nyluniad pob ystâd newydd. Yn ddiweddar, enillodd Campws y Ddinas wobr genedlaethol am ymgorffori ystod eang o dechnolegau cynaliadwy yn ei ddyluniad.

Mae’r brifysgol yn rheoli’i chyllid yn dda. Mae’r arweinwyr yn defnyddio dull strwythuredig effeithiol i ddyrannu cyfalaf a chyllidebau traul. Mae hyn yn golygu bod adnoddau ar gael pan fo’u hangen, a’u bod yn gyffredinol yn diwallu anghenion dysgwyr addysg bellach ynghyd â’r staff addysgu a’r staff cymorth. Mae digon o adnoddau ar gael yn gyffredinol ac maent o safon foddhaol.

At ei gilydd, mae’r ffordd y mae darpariaeth addysg bellach y brifysgol yn rheoli’i hadnoddau yn anfoddhaol am fod y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr addysg bellach yn anfoddhaol. Mae’r brifysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian i’w dysgwyr addysg bellach.

## Atodiad 1

### Boddhad Dysgwyr

Yn gyffredinol, mae’r dysgwyr sy’n aros ar eu cyrsiau yn gadarnhaol ynglŷn â’u profiad dysgu. Mae gan leiafrif o’r dysgwyr a ymatebodd i’r holiadur faterion yn ymwneud ag ansawdd y lleoliadau gwaith a’r cymorth a roddwyd, a hefyd yn ymwneud â mynediad i offer i’w helpu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Bernard Hayward | Arolygydd Cofnodol |
| Christine Hooper | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Teresa Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Robinson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Andrew Cornish | Arolygydd Cymheiriaid |
| Pam Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Brent Stephens | Enwebai’r Darparwr |